# ASESIAD A CHYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

## CYFARFOD Y GRŴP TECHNEGOL RHANBARTHOL

**Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Gwener 13eg Awst 2004 am 10.00am**
**Canolfan Ddinesig Penllergaer**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Howell Beaton (Cadeirydd) | CBS Castell-nedd Port Talbot |
| Ceri Morris | CBS Castell-nedd Port Talbot |
| Carol Williams | CS Penfro / APCAP |
| Steve Bool | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont |
| Graham Dorrington | Cyngor Sir Ceredigion |
| Nick Oakes | Cyngor Sir Ceredigion |
| Clifford Parish | Dinas a Sir Abertawe |
| Audrey Evans | Asiantaeth yr Amgylchedd (De-Orll. Cymru) |
| Neil Bateman | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Phil Williams | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Sue Martin | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Philip Marks | CYLCH |
| Miranda Lewis | Asiantaeth yr Amgylchedd |

1. **Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Geoff White | CBS Castell-nedd Port Talbot |
| Andy Rees | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Ruth Brown | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| Cathy O'Brien | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Huw Jenkins | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont |
| Dave Harries | Cyngor Sir Penfro |
| Alison Thomas | Dinas a Sir Abertawe |

2. **Cofnodion cyfarfod y Grŵp Technegol ar 25ain Mehefin 2004**

Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir ac ni chodwyd unrhyw faterion.

3. **Adendwm y CGRh:**

- **Cynnydd yng ngwaith Asiantaeth yr Amgylchedd**

Dosbarthodd ML gyfres o fapiau i fynd gyda'r adroddiad Mapio GIS ac aeth yn ei blaen i ddarparu crynodeb o'r prif bwyntiau.

Dilynwyd gan drafodaeth a nodwyd/cytunwyd ar y prif bwyntiau canlynol.

- Pwysleisiwyd bod y mapiau'n ddrafft cychwynnol ac mae angen ychwanegu un neu ddwy haen i'r model o hyd. Bydd yr haenau nad oedd modd eu rhoi ar y drafft cyfredol am resymau ymarferol, yn effeithio'n sylweddol ar y map cyfansawdd terfynol;
- Mae parthau byffer wedi cael eu gosod o ffin allanol y defnyddiau/dynodiadau tir amrywiol yn hytrach na phwynt canolog;
- Bydd unrhyw newidiadau i'r parthau byffer yn effeithio ar y map cyfansawdd;
- **Cytunwyd** bod angen mireinio'r meini prawf ymhellach;

- Nodwyd bod cyfeiriadau drwy gydol yr adroddiad at ardaloedd "addas" ar gyfer tirlenwi. Yn y bôn mae hyn yn anghywir ac mae'n bosib y bydd yn arwain at gamddehongli. Mae'n fwy defnyddiol yn y cam hwn i gyfeirio at ardaloedd nad ydynt yn briodol. Dylai'r adroddiad gyfeirio at "ardaloedd na fyddant yn cael eu chwilio". **Cytunwyd. Gweithredu:** ML
- Nodwyd y bydd Grŵp y Swyddogion Trefol yn cwblhau adroddiad ar ofynion isadeiledd y rhanbarth erbyn dechrau mis Medi. Dylid bwydo'r adroddiad hwn i mewn i'r broses cyn gynted â phosib. **Cytunwyd.**
- Wrth gyflwyno'r adroddiad 'cam cyntaf' i'r Aelodau, dylid pwysleisio mai drafft cyntaf ydyw a bod angen gwaith pellach;
- Er mwyn symud ymhellach bydd gofyn i'r GTRh roi pwys i'r meini prawf (h.y. blaenoriaethu'r meini prawf o ran pwysigrwydd);
- O ran amserlen ymgorffori gwaith o'r fath ym mharatoadau'r CDU, cadarnhaodd SM mai goblygiadau yr Adendwm terfynol 'a gytunwyd' yn unig y dylid ei ystyried; a
- Chadarnhaodd ML bod AA wedi ymrwymo i gwblhau'r cam cyntaf yn unig. Bydd angen cynnal trafodaethau rhwng AA, LlCC a Chastell-nedd Port Talbot er mwyn llunio barn ar symud ymlaen i'r cam nesaf a sut bydd y fath waith yn cael ei ariannu/adnoddu.

4. **Diweddariad ar gynrychiolwyr y Fforwm Aelodau**

Adroddwyd fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont: | Dim newid. |
| Cyngor Sir Caerfyrddin: | Dim newid. |
| CS Penfro / APCAP: | Dim newid. |
| Dinas a Sir Abertawe: | Bydd y Cyng. John Hague yn cymryd lleoedd y Cyng. D I E Jones a'r Cyng Byron Owen. |
| Cyngor Sir Ceredigion: | I'w gadarnhau. |

5. **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cytunwyd y dylid cynnal y cyfarfod nesaf ar ddydd Iau 16eg Medi.

6. **Unrhyw Fater Arall**

Adroddodd CM bod CBS Castell-nedd Port Talbot wedi derbyn llythyr gan breswylydd lleol ynghylch y broses gynllunio Gwastraff Rhanbarthol. Mae un mater a godwyd yn cwestiynu sail statudol LlCC i greu rhanbarthau yng Nghymru ac mae wedi gofyn am gadarnhad ynghylch sail ddeddfwriaethol y penderfyniad hwn.

Cadarnhaodd SM y dylid cynghori'r preswylydd lleol i ysgrifennu'n uniongyrchol at Kay Powell yn LlCC. **Gweithredu**: CM.

Cadarnhaodd SM bod y Contract Grant Gwastraff wedi cael ei gwblhau bellach. Yr unig beth sy'n weddill yw i Gastell-nedd Port Talbot lofnodi'r contract yn ffurfiol. **Gweithredu**: GW.

O ran yr ymarfer mapio GIS mae AA wedi ymrwymo i gwblhau'r cam cyntaf hwn yn unig. Gofynnodd SM am gyfarfod i drafod y posibilrwydd o ariannu gwaith parhaus ar gyfer y rhanbarth De-orllewinol a gweithredu ymarfer tebyg ar gyfer y ddau ranbarth arall yng Nghymru. **Cytunwyd**. **Gweithredu**: SM / ML.